# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## RHOI CYMUNEDAU'N GYNTAF – YMATEBION I'R AIL YMARFER YMGYNGHORI

### Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r ymatebion i ail gam yr ymgynghori am 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' a chynnig unrhyw sylwadau pellach.

### Crynodeb

2. Daeth dros 130 o ymatebion ysgrifenedig i law oddi wrth y sectorau statudol, gwirfoddol a chymunedol. Yn gyffredinol, yr oedd y rhain yn croesawu ac yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r cynigion gweithredu. Yr oedd y materion allweddol a godwyd fel a ganlyn:

### Dethol Cymunedau:

Yr oedd pryderon am y canlynol:

- posibilrwydd na fyddai rhai ardaloedd difreintiedig bach yn cael eu cynnwys;
- methiant i ystyried poblogaeth y sipsiwn a safleoedd teithwyr;
- cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol dros enwebu cymunedau i'w cynnwys yn y rhaglen; a
- posibilrwydd y byddai ardaloedd nad ydynt yn y Mynegai Amlamddifadedd yn cael eu cynnwys gan olygu y byddai llai arian ar gael ar gyfer yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

### Ariannu

- Yr oedd croeso i'r ymrwymiad i ariannu tymor hir, er y barnwyd nad yw'r arian sydd ar

gael yn ddigonol i roi terfyn ar y dirywiad sy'n rhan o amddifadedd cymdeithasol.

- Barnwyd bod yn rhaid wrth hyblygrwydd wrth ddefnyddio arian a bod beiddgarwch yn hanfodol.
- Dylai gweithdrefnau ar gyfer cael gafael ar arian fod mor syml â phosibl ac mae angen rhoi cymorth i gymunedau gael gafael ar arian.
- Daeth nifer o sylwadau i law yn erbyn y cynnig mai'r awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am y gronfa.
- Awgrymwyd y dylid cael terfyn gwariant uchaf ar gyfer pob awdurdod lleol a chyfyngiadau amser ar gyfer y cymorth.
- Lleisiwyd pryderon am y posibilrwydd na fyddai arian Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn cael ei ddefnyddio â dychymyg, ond yn hytrach fel arian cyfatebol ar gyfer Amcan 1 yn unig.

**Sefydlu a Chynnal Partneriaethau**

- Lleisiwyd y farn bod gormod o bartneriaethau yn cael eu creu a chynigiwyd y dylai partneriaethau adeiladu ar drefniadau sy'n bod eisoes, gan sicrhau ar yr un pryd bod cymunedau'n cael cymryd rhan.
- Gofynnwyd am hyblygrwydd mewn perthynas â chyfansoddiad partneriaethau, cyhyd â bod trefniadau yn sicrhau bod buddiannau'r cymunedau yn cael blaenoriaeth.
- Dylid rhoi rhan i'r sector preifat o'r cychwyn cyntaf.
- Gofynnwyd am ganllawiau cynhwysfawr ar gyfer Partneriaethau a lleisiwyd pryder am y cynnig ynghylch Hyrwyddwyr.

**Meithrin Gallu ac Annog Cymunedau i Gymryd Rhan**

- Bydd ar asiantaethau a chyrff angen cefnogaeth ar gyfer newidiadau diwylliannol sylweddol a bydd angen iddynt ddysgu sut i weithio'n wahanol.
- Dylai'r canllawiau ynghylch atebolrwydd i'r gymuned fod yn glir, a dylai rhoi rhan weithredol i gymunedau fod yn faen prawf allweddol mewn perthynas ag ariannu.

**Barnu sut y mae'r Cynlluniau yn Dod yn eu Blaen**

- Dull defnyddiol o fesur hyder cymuned fyddai meincnod sy'n gysylltiedig â llwyddiant cymuned i gael gwared ar ei henw drwg.
- Galwyd am werthuso cymharol, a rhoi cyfrifoldeb i'r cymunedau dros werthuso effeithiau rhoi eu cynlluniau ar waith.

- Awgrymwyd y dylai meini prawf Rhoi Cymunedau'n Gyntaf gael eu croesgyfeirio at Werth Gorau.

**Materion Eraill**

- Cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd Strategaeth Datblygu Cymunedol Genedlaethol ar gyfer Cymru.
- Galwyd am Asiantaeth Datblygu Cymunedol ar gyfer Cymru.

-

**Sylwadau**

3. Mae'r Cynulliad wedi ymgynghori'n helaeth am fframwaith Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, ac mae wedi cynnwys amrediad eang o gyfranogwyr yn y broses datblygu polisi trwy seminarau datblygu a sesiynau trafod ym mhob cwr o Gymru. Daeth 160 o atebion ysgrifenedig i law i'r ddogfen ymgynghori gychwynnol. Cyhoeddwyd yr ail ddogfen sy'n rhoi manylion ein cynigion ar gyfer gweithredu ym mis Rhagfyr 2000. [Amgaeir copi]. Mae'r 130 o ymatebion yn cael eu hystyried yn ofalus, ynghyd â chanlyniadau seminar ymgynghori o bwys a fynychwyd gan dros 200 o gynrychiolwyr o asiantaethau a grwpiau cymunedol, a gynhaliwyd ar 31 Ionawr.

4. Yn gyffredinol, yr oedd yr ymatebion a ddaeth i law yn ffafriol ac yn cefnogi'r cynigion ar gyfer y rhaglen. Caiff y rhain eu defnyddio i lunio gwedd derfynol y rhaglen ac i lunio canllawiau ar gyfer partneriaethau a pharatoi cynlluniau cyflwyno lleol.

**Man Cyswllt: Yr Uned Adfywio Cymunedol a Chynhwysiant Cymdeithasol**

**Ebrill 2001**